# Hysbysiad Preifatrwydd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint

***Pwy yw'r Rheolydd Data ar gyfer y prosesu hwn?***

Ni yw'r Rheolydd Data, mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn gweithredu fel y Prosesydd Data ar gyfer y wybodaeth bersonol mae'n ei derbyn neu ei chreu ar ddefnyddwyr gwasanaeth.

Bydd y wybodaeth bersonol yr ydym wedi'i chasglu gennych chi yn cael ei rhannu gydag asiantaethau atal twyll a fydd yn ei defnyddio i atal twyll a gwyngalchu arian ac i wirio eich hunaniaeth. Pe canfyddir twyll, gallech gael eich gwrthod ar gyfer gwasanaethau penodol, cyllid neu gyflogaeth.

***Pa wybodaeth bersonol rydym yn ei chadw?***

Dim ond yr isafswm o wybodaeth bersonol sy'n ofynnol yr ydym yn ei chasglu a'i defnyddio wrth ddarparu gwasanaeth i chi. Pan fo modd rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol anadnabyddadwy.

Er mwyn darparu gwasanaethau diogel ac o'r ansawdd gorau ac sy'n berthnasol i anghenion ein defnyddwyr gwasanaeth, bydd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn casglu a chadw gwybodaeth am unigolion. Gall hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:

- manylion sylfaenol fel enw, dyddiad geni, cyfeiriad a manylion cyswllt
- rhieni / gofalwyr, aelodau'r teulu - enw, cyfeiriad, manylion cyswllt
- hanes troseddu
- asesiadau
- holl gyswllt gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, neu wasanaethau cysylltiol eraill
- cofnodion tai
- cofnodion addysg
- adroddiadau'r heddlu
- gwybodaeth am ddioddefwyr troseddau ieuenctid

Rydym hefyd yn casglu'r data categori arbennig canlynol:

- rhyw
- ethnigrwydd
- crefydd
- gwybodaeth feddygol
- gwybodaeth gan weithwyr proffesiynol eraill sy'n berthnasol e.e. CAMHS, camddefnyddio sylweddau, iaith a lleferydd

Rydym yn casglu gwybodaeth amdanoch mewn sawl ffordd, gan gynnwys wyneb yn wyneb, e-bost diogel, drwy'r post a dros y ffôn.

Rydym yn derbyn mwyafrif y wybodaeth gennych chi, ond efallai y byddwn hefyd yn derbyn rhywfaint o ddata gan:

- Asiantaethau llywodraeth
- awdurdodau lleol eraill
- darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol
- yr heddlu a gwasanaethau prawf

- partneriaid wedi'u comisiynu
- aelodau o'r teulu

**Sut ydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol?**

Rydym yn defnyddio eich gwybodaeth i :

- ddarparu'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, neu ymdrin â'ch ymholiad
- cynllunio a gwella'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig
- er mwyn canfod ac atal trosedd neu dwyll
- ymchwil, ond byddai hyn yn cael ei wneud yn ddi-enw oni bai ein bod yn gofyn am ganiatâd i ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol i'r diben hwn
- tystiolaeth o ganlyniadau positif i asiantaethallu cyllid

***Gyda phwy arall y gallwn rannu'r wybodaeth hon?***

Weithiau bydd angen rhannu eich gwybodaeth, ond dim ond pan fo'n hanfodol neu'n ofynnol yn ôl cyfraith y byddwn yn gwneud hynny. Byddwn yn rhannu'r isafswm o ran gwybodaeth ar gyfer pob sefyllfa.

Mae rhannu gwybodaeth yn ein cynorthwyo i ddarparu'r ymyraethau a'r gefnogaeth orau posibl i'n defnyddwyr gwasanaeth. Byddwn yn rhannu gwybodaeth amdanoch chi gyda gwasanaethau eraill pan fyddant yn ymwneud â'ch gofal a'ch cefnogaeth yn unig neu pan fo sail gyfreithiol dros wneud hynny.

Mae ystod o weithwyr proffesiynol a allai fod yn ymwneud â darparu gwasanaethau i chi a lle bo'r angen byddant yn derbyn y wybodaeth berthnasol amdanoch chi.

Gall asiantaethau yr ydym yn rhannu gwybodaeth gyda nhw, neu dderbyn gwybodaeth ganddynt gynnwys y canlynol:

- Yr Heddlu
- Asiantaethau barnwrol (Gwasanaethau Llysoedd a Thribiwnlys Ei Fawrhydi, cyfreithwyr)
- Gofal Cymdeithasol Plant
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Gwasanaethau Iechyd (ymwelwyr iechyd, nyrsys ysgol, meddygon teulu, ymgynghorwyr)
- Gwasanaethau / darparwyr addysg
- Gwasanaethau / darparwyr tai
- Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol
- Carchardai / ystadau diogel
- Timau / gwasanaethau troseddu ieuenctid eraill
- Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

***Beth yw'r sail gyfreithiol dros ein defnydd o'ch gwybodaeth bersonol?***

Mae mwyafrif y wybodaeth bersonol yr ydym yn ei phrosesu wedi'i darparu'n uniongyrchol gennych chi, o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), y seiliau cyfreithiol yr ydym yn dibynnu arnynt i ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol yw:

- mae gennym ymrwymiad cyfreithiol (Erthygl 6 (c) GDPR)
- mae angen i ni amddiffyn eich buddiant allweddol i fywyd (Erthygl 6 (d) GDPR)
- mae ei angen arnom i gyflawni tasg gyhoeddus (Erthygl 6 (e) GDPR)

Pan fyddwn yn casglu data am eich hil, iechyd (gan gynnwys data biometrig neu enetig), bywyd rhywiol, cyfeiriadedd rhywiol, tarddiad ethnig, gwleidyddiaeth neu aelodaeth undeb llafur, rydym hefyd yn dibynnu ar y sail gyfreithiol ganlynol:

- mae ei angen arnom ar gyfer cyflogaeth, diogelwch cymdeithasol neu amddiffyn cymdeithasol (Erthygl 9 (2) (b) GDPR)
- mae angen i ni ddiogelu eich buddiant allweddol i fywyd mewn amgylchiadau lle nad oes modd i chi roi caniatâd (Erthygl 9 (2) (c) GDPR)
- mae angen i ni amddiffyn hawliad cyfreithiol (Erthygl 9 (2) (f) GDPR)
- mae angen i ni ei gasglu er Budd Sylweddol y Cyhoedd er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth y DU (Erthygl 9 (2) (g) GDPR)
- rydym yn darparu cefnogaeth iechyd a gofal cymdeithasol i chi (Erthygl 9 (2) (h) GDPR)
- mae angen i ni ddadansoddi eich gwybodaeth (Erthygl 9 (2) (j) GDPR)

Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn casglu a phrosesu gwybodaeth yn gyfreithiol am bobl ifanc o dan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998
- Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003
- Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012
- Deddf Rheoli Troseddwyr 2007
- Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1994
- Deddf Plant 1989
- Deddf Plant 2004

Bydd y wybodaeth yn galluogi'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i edrych ar sefyllfa pob person ifanc y mae'n dod i gyswllt â nhw a nodi, neu asesu, rhesymau posibl pam eu bod wedi cyflawni'r drosedd. Bydd angen y wybodaeth arnom i edrych ar unrhyw anawsterau y gallai person ifanc eu profi a allai gynyddu'r siawns y byddant yn cyflawni mwy o droseddau yn y dyfodol. Mae achlysuron y bydd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn gwneud hyn oherwydd bod y llys wedi gofyn am adroddiad ar y person ifanc cyn penderfynu ar y ddedfryd.

***Ble fyddwn ni'n storio eich gwybodaeth?***

Mae diogelwch eich gwybodaeth bersonol yn bwysig i ni. Mae'r cofnodion yr ydym yn eu cadw amdanoch yn ddiogel ac yn cael eu trin fel gwybodaeth gyfrinachol o fewn rhwydwaith Cyngor Sir y Fflint sy'n cynnal ein gwasanaethau TGCh. Mae gennym ystod o weithdrefnau, polisïau a systemau i sicrhau bod mynediad at eich cofnodion yn cael ei reoli'n briodol.

Dim ond staff ag awdurdod sy'n gallu cael mynediad at system rheoli achos y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, ac mae ganddynt fanylion mewngofnodi unigol ac wedi derbyn hyfforddiant priodol.

Mae gan unrhyw un sy'n derbyn gwybodaeth gennym ni ddyletswydd gyfreithiol i ddefnyddio'r wybodaeth at y dibenion a gytunwyd yn unig ac i gadw'r wybodaeth yn ddiogel a chyfrinachol.

***Am ba hyd y byddwn yn cadw'ch gwybodaeth?***

Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol wrth ddarparu gwasanaeth i chi yn unig ac i ymdrin ag unrhyw gwestiynau neu gwynion y byddwn yn eu derbyn am hyn, oni bai bod y gyfraith yn nodi

bod rhaid i ni gadw'r wybodaeth am gyfnod hirach. Mae hyn yn golygu bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am y terfynau amser a argymhellir gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac yna'n cael ei ddinistrio'n ddiogel.

- mae gwybodaeth bersonol am warediad cyn mynd i'r llys a gwarediad llys yn cael eu dinistrio'n ddiogel ar ôl chwe blynedd ar ôl pen-blwydd y person ifanc yn 18.
- mae gwybodaeth bersonol am droseddau rhyw yn cael ei chadw am gyfnod amhenodol
- mae gwybodaeth bersonol yn ymwneud â Phlant sy'n Derbyn Gofal yn cael ei chadw am 75 o flynyddoedd o'r dyddiad geni (99 mlynedd os ydynt yn cael eu mabwysiadu) neu os yw person ifanc yn marw cyn eu pen-blwydd yn 18, am bymtheg mlynedd ar ôl dyddiad eu marwolaeth.
- mae gwybodaeth bersonol yn ymwneud ag amddiffyn plant yn cael ei chadw am 25 o flynyddoedd o'r dyddiad geni neu os yw person ifanc yn marw cyn eu pen-blwydd yn 18, am chwe blynedd ar ôl dyddiad eu marwolaeth.

Os bydd angen defnyddio eich gwybodaeth ar gyfer ymchwil neu adroddiadau, bydd eich gwybodaeth yn cael ei chyflwyno'n ddi-enw a bydd unrhyw wybodaeth sy'n cael ei chymryd o nodiadau (ysgrifenedig neu wedi'u teipio) yn ystod unrhyw sesiynau ymgynghori yn cael eu dinistrio'n ddiogel. Bydd y wybodaeth yn parhau i gael ei defnyddio yn ddi-enw ac wedi'i chrynhoi mewn unrhyw adroddiadau neu bapurau ymchwil sy'n cael eu cyhoeddi. Gallai'r wybodaeth ddi-enw yn y papurau fod o ddiddordeb hanesyddol, ac efallai caiff ei chadw mewn archifau cyhoeddus am gyfnod amhenodol. *Ers mis Ebrill 2015 mae moratoriwm ar ddifa wedi bod ar waith oherwydd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Rhywiol ar Blant (IICSA) (Ymchwiliad Goddard). Pan fydd y cyfyngiadau hyn yn cael eu llacio, bydd y polisi cadw uchod yn dod i rym.*

***Eich hawliau***

O dan gyfraith diogelu data, mae gennych hawliau gan gynnwys:

- eich hawl i gael mynediad - mae gennych yr hawl i ofyn i ni am gopïau o'ch gwybodaeth bersonol.
- eich hawl i gywiro - mae gennych yr hawl i ofyn i ni gywiro gwybodaeth sy'n anghywir. Hefyd mae gennych yr hawl i ofyn i ni gwblhau gwybodaeth yr ydych yn meddwl sy'n anghyflawn.
- eich hawl i gyfyngu ar brosesu - mae gennych yr hawl i ofyn i ni gyfyngu ar brosesu eich gwybodaeth mewn amgylchiadau penodol.
- eich hawl i wrthwynebu prosesu - mae gennych yr hawl i wrthwynebu prosesu eich data personol mewn amgylchiadau penodol.

Nid oes angen i chi dalu unrhyw ffi ar gyfer ymarfer eich hawliau. Os byddwch yn gwneud cais, mae gennym ni fis i ymateb i chi.

I wneud cais dilynwch y cyfarwyddiadau ar wefan Cyngor Sir y Fflint.

***A fydd fy ngwybodaeth bersonol ar gael y tu allan i'r DU?***

Os bydd trosglwyddo gwybodaeth bersonol y tu allan i'r DU yn ofynnol, bydd yn cael ei gyflawni os caniateir hynny yn ôl y gyfraith, a dim ond os bydd mesurau diogelu priodol yn eu lle i ddiogelu'r wybodaeth bersonol.

Nid ydym yn prosesu eich data personol y tu allan i'r DU.

***Sut i gyflwyno cwyn os ydych yn anfodlon o ran sut y defnyddir eich data***

Mae gennym Swyddog Diogelu Data sydd yn sicrhau ein bod yn parchu eich hawliau ac yn cydymffurfio gyda'r gyfraith. Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch sut ydym yn gofalu am eich data personol, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data dataprotectionofficer@flintshire.gov.uk neu cysylltwch â'n Tîm Llywodraethu Gwybodaeth gan ddefnyddio'r manylion isod:-

Tîm Llywodraethu Gwybodaeth
Llywodraethu
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint, CH7 6NR

***Gweithdrefn Gwynion Diogelu Data***

Os ydych yn parhau i fod yn anfodlon â sut mae'r Cyngor wedi trin eich data personol efallai y byddwch yn dymuno cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:-

Cyfeiriad Post: Customer Contact, Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF

Ffôn - 0303 123 1113

E-bost - casework@ico.org.uk

Neu drwy fynd i wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - www.ico.org.uk